



## Cylch Gorchwyl<sup>1</sup>

**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn gorff statudol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i gyflwyniad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

### Pwrpas

1. Pwrpas y Bwrdd yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
2. Wrth gyflawni'r pwrpas hwn, bydd y Bwrdd yn cyfrannu at saith nod lles cenedlaethol:
  - Cymru lewyrchus
  - Cymru wydn
  - Cymru iachach
  - Cymru fwy cyfartal
  - Cymru o gymunedau cydlynol
  - Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
  - Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang
3. Yn gyntaf, mae gan y Bwrdd bedwar prif dasg:
  - Paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol bwrdeistref sirol Wrecsam.
  - Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol i Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn gosod nodau lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyrraedd.
  - I gymryd holl gamau rhesymol i ddiwallu amcanion lleol.
  - Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi cynnydd y Bwrdd tuag at gyflawni'r amcanion lleol.

<sup>1</sup> Mae'r cylch gorchwyl hwn wedi'i ysgrifennu i adlewyrchu'r Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (SPSF 3: swyddogaeth ar y cyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus), a chytunwyd ar y cylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf BGC Wrecsam ar 16 Mehefin 2016

## Egwyddorion

4. Datblygiad cynaliadwy yw'r egwyddor pwysicaf yng ngweithgareddau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam. Mae hyn yn golygu bod angen gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## Aelodaeth

5. Y pedwar aelod statudol o'r Bwrdd yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Arweinydd a Phrif Weithredwr)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cyfarwyddwr Rhanbarth, Dwyrain)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Prif Swyddog Tân)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Pennaeth Gweithrediadau, Gogledd Cymru)

Mae'r aelodau hyn yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni dyletswyddau statudol y bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen cytundeb unfrydol gan yr aelodau statudol i gyflawni'r pedwar prif ddyletswydd statudol (eitem 3 uchod).

6. Gall unigolion gael eu dynodi i gynrychioli unrhyw un o'r unigolion a enwir uchod.
7. Dylai unrhyw gynrychiolwyr dynodedig gael yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad.
8. Mae'r gwahoddedigion statudol canlynol, a adnabyddir fel Cyfranogwyr Gwâdd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgaredd BGC Wrecsam:
  - Gweinidog Cymru
  - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
  - Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
  - Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru
  - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
  - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
9. Nid oes angen i gyfranogwyr gwâdd dderbyn eu gwahoddiad, a thrwy dderbyn y gwahoddiad, nid ydynt yn dod yn Aelodau Statudol BGC. Mae ganddynt hawl i weithio ar y cyd gyda BGC Wrecsam, cymryd rhan mewn cyfarfodydd Bwrdd a rhoi cyngor a chymorth arall.
10. Ar hyn o bryd, nid yw Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi derbyn y cynnig o wahoddiad i fod ar BGC Wrecsam, ond mae'r cyfranogwyr eraill a wahodwyd i gyd wedi'u cynrychioli ar BGC Wrecsam.
11. Mae'n rhaid i BGC Wrecsam ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn yr ardal sydd â diddordeb materol yn lles Wrecsam, neu sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, ym mharatoadau, gweithrediad a darpariaeth y bwrdd. Mae'r rhain wedi cael eu nodi fel: Cyngorau Cymuned, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngorau Iechyd Cymuned, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch neu

Addysg Bellach, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cenedlaethol Cymru.

12. O'r partneriaid allweddol, wedi'u nodi yn 11 uchod, mae BGC Wrecsam i ddechrau wedi nodi tri partner i fod yn Gyfranogwyr Gwadd, ac mae ganddynt yr un hawliau â chyfranogwyr gwadd eraill ar y bwrdd:

- Coleg Cambria
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

13. Gall y BGC ofyn i Gyfranogwyr Gwâdd a phartneriaid eraill ddarparu gwybodaeth ynghylch unrhyw weithred y maent yn ei gyflawni a all gyfrannu at gyflawni nodau lles. Fodd bynnag, nid oes arnynt angen darparu gwybodaeth os:

- (a) ydynt yn ystyried y byddai'n anghyson â'u dyletswyddau, neu
- (b) mae'n cael effaith niweidiol ar arfer eu swyddogaethau, neu
- (c) maent yn cael eu gwahardd rhag ei ddarparu yn ôl y gyfraith.

14. Os yw unigolyn yn penderfynu peidio â darparu gwybodaeth y mae'r BGC wedi gwneud cais amdano, mae'n rhaid iddo ddarparu rhesymau ysgrifenedig o'i benderfyniad i'r bwrdd.

### **Gwneud Penderfyniadau**

15. Os bydd anghytundeb rhwng aelodau, cyfrifoldeb y cadeirydd yw cyfryngu cytundeb ac i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r BGC neu gyfarfod arbennig os bydd angen.

### **Cworwm**

16. Mae cworwm BGC Wrecsam yn cynnwys ei holl Aelodau Statudol.

### **Cyfarfodydd Gorfodol**

17. Bydd y BGC yn cynnal "cyfarfod gorfodol" wedi'i gadeirio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dim hwyrach na 60 diwrnod ar ôl pob etholiad cyffredin o Gynghorwyr. Yn dilyn etholiadau Mai 2017, bydd hyn ar 1 Mehefin 2017.

18. Bydd aelodau BGC yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn y cyfarfod gorfodol o'r aelodau statudol a chyfranogwyr gwâdd.

19. Yn y cyfarfod hwn, bydd y Bwrdd hefyd yn:

- a) Pennu pryd a pha mor aml mae'n cyfarfod.
- b) Adolygu a chytuno ar gylch gorchwyl

### **Cyfarfodydd Arferol**

20. Cynhelir cyfarfodydd arferol o BGC Wrecsam o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (oddeutu bob tri mis calendr).

21. Bydd pob cyfarfod yn ystyried, ond ddim yn gyfyngedig, yr eitemau agenda canlynol:

- Croeso ac ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Cynnydd ar amcanion lles (fel bo'n briodol)

### **Is-Grwpiau**

22. Gall BGC Wrecsam sefydlu is-grwpiau i'w gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau a gall awdurdodi is-grwpiau i arfer nifer cyfyngedig o swyddogaethau.

23. Mae'n rhaid i bob is-grŵp BGC Wrecsam gynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd, a fydd yn cadeirio'r is-grŵp, a gall gynnwys unrhyw gyfranogwyr gwâdd neu bartner arall.

24. Ni all yr is-grwpiau:

- (a) Wahodd unigolion i gymryd rhan yng ngweithgaredd y BGC;
- (b) Gosod, adolygu neu ddiwygio amcanion lleol BGC Wrecsam;
- (c) Paratoi neu gyhoeddi asesiad llesiant Wrecsam;
- (d) Ymgynghori ar asesiad llesiant Wrecsam neu baratoi drafft o asesiad i bwrpas ymgynghori;
- (e) Paratoi neu gyhoeddi cynllun llesiant Wrecsam;
- (f) Ymgynghori ar gynllun llesiant Wrecsam neu baratoi drafft o gynllun llesiant lleol i bwrpas ymgynghori;
- (g) Adolygu neu ddiwygio cynllun llesiant lleol Wrecsam neu gyhoeddi cynllun llesiant lleol;
- (h) Ymgynghori ar newid i gynllun llesiant lleol Wrecsam;
- (i) Cytuno bod y bwrdd yn uno neu gydweithio â BGC arall.

25. Mae angen i'r holl aelodau weithredu'r materion uchod ar y cyd felly mae'n rhaid i BGC Wrecsam ymdrin â'r rhain.

26. Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar amcanion i bob is-grŵp ar ôl sefydlu'r is-grŵp. Tra bo'r BGC yn datblygu'r Cynllun Llesiant, bydd y BGC yn parhau i gefnogi PDB1, a PDB3 yn Wrecsam. Bydd hyn yn cael ei ailasesu ar ôl cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y cynllun llesiant.

### **Yn cefnogi**

27. Mae cefnogaeth weinyddol ar gyfer BGC Wrecsam yn cael ei ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y BGC wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd.
- Paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd
- Gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb
- Gweithio ar yr adroddiad blynyddol
- Paratoi tystiolaeth ar gyfer craffu

Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

## **Ymgysylltiad Ehangach**

28. Mae ffocws dinesydd BGC yn golygu y bydd yn ymgysylltu mewn perthynas pwrpasol gyda'r bobl a chymunedau yn yr ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sydd â nodweddion a ddiogelir, ym mhob agwedd o'i waith.

- Gellir gwahodd partïon â diddordeb i wneud cyflwyniadau i'r BGC ar unrhyw eitemau sy'n cael eu hystyried. Bydd y BGC yn gofalu i sicrhau bod priodoldeb a didueddrwydd ym mhrosesau'r bwrdd, a bod yn ymwybodol o'r peryglon o unrhyw ganfyddiad sy'n codi bod grŵp penodol yn cael mynediad gormodol at, neu'n ddylanwadu ar drafodaethau'r bwrdd.
- Bydd y BGC yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau bod y llais cyhoeddus yn cael ei glywed, ac yn helpu i ffurfio asesiad llesiant a'r cynllun llesiant. Disgwylir i hyn gynnwys ymarferion ymgynghori a chyfleoedd i bobl godi a thrafod syniadau drwy drefniadau ymgysylltu ar-lein ac fel arall.
- Mae'r BGC yn ddarostyngedig i graffu drwy Bwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu'r Cyngor, ac mae'r broses hon yn rhoi llwybr pellach i ymgysylltiad cyhoeddus.

29. Bydd copi o'r asesiad llesiant, cynllun llesiant a phob adroddiad blynyddol yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu'r cyngor.

## **Adroddiad Blynyddol**

30. Bydd y BGC yn paratoi a chyhoeddi adroddiad dim hwyrach na 14 mis ar ôl cyhoeddiad cyntaf o'i gynllun llesiant lleol cyntaf. Bydd hyn yn galluogi'r BGC i adrodd ar weithgaredd blwyddyn lawn.

31. Ar ôl hyn, bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol dim hwyrach na blwyddyn ar ôl cyhoeddiad pob adroddiad blaenorol.

32. Yn y flwyddyn yn dilyn etholiad llywodraeth leol arferol, pan fydd cynllun llesiant lleol newydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi, ni fydd y BGC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol.

33. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn gosod y camau sydd eu hangen ers cyhoeddi cynllun lleol mwyaf diweddar y BGC i ddiwallu amcanion a osodwyd yn y cynllun. Gall hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r BGC yn ei ystyried yn briodol.

34. Bydd copi o Adroddiad Blynyddol BGC Wrecsam yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu'r cyngor.

## **Craffu**

35. Swyddogaeth y craffu yw herio a chefnogi er mwyn sicrhau gwelliant parhaus i BGC Wrecsam.
36. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, mae gofyniad i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig o'r awdurdod lleol perthnasol i graffu gwaith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Yn Wrecsam, y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol fydd hwn.
37. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfeirio cynllun BGC i'r pwyllgor craffu lleol os nad yw'n cael ei ystyried yn ddigonol. Er enghraifft, oherwydd adroddiad croes gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru neu bryder nad yw dyletswyddau statudol yn cael eu diwallu.
38. Gall y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu ofyn i unrhyw aelod o'r BGC roi tystiolaeth, dim ond mewn perthynas a'r arfer swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel aelod o BGC Wrecsam.
39. Mae'n rhaid i Bwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion y mae'n ei wneud at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### **Adolygu a Diwygio**

40. Tra bo rhaid i BGC Wrecsam adolygu'r cylch gorchwyl hyn yn y cyfarfod gorfodol, bydd y BGC yn adolygu, a chytuno ar gylch gorchwyl yn flynyddol.